Uned 2A: Ysgrifennu storïau: cyfathrebu gwybodaeth drwy destun

Ynglyn â'r uned:

Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu sut i ddefnyddio geiriau i gyfathrebu negeseuon gan gydnabod bod TGCh yn rhoi cyfle iddynt gywiro a gwella eu gwaith, *wrth* iddynt weithio neu'n ddiweddarach. Bydd gan blant gyfleoedd i drafod eu profiadau o ddefnyddio TGCh. Hefyd byddant yn cael eu hannog i gadw eu gwaith gyda chymorth

Bydd plant yn gallu cymhwyso'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu yn yr uned hon wrth iddynt: ysgrifennu storïau gyda dilyniant clir o ddigwyddiadau mewn arddull gyson; defnyddio ac atalnodi brawddegau o fathau amrywiol; sylwi ar y nodweddion sy'n gwahaniaethu testunau fel naratif, gwybodaeth a barddoniaeth.

Byddant yn gallu defnyddio'r sgiliau hyn hefyd wrth iddynt: greu ysgrifennu creadigol yn Saesneg, ysgrifennu brawddegau syml yn Gymraeg, cynhyrchu adroddiadau o'u gwaith gwyddoniaeth a daearyddiaeth; disgrifio dilyniant digwyddiadau hanesyddol.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod plant:

- yn gallu bwydo testun i mewn gan ddefnyddio banc geiriau
- yn gallu defnyddio'r botymau cywir ar y llygoden
- yn gallu ysgrifennu brawddegau syml
- yn gallu sillafu'r geiriau maen nhw'n eu defnyddio yn aml
- yn gallu defnyddio atalnodau llawn a phriflythrennau
- yn gallu deall cyfuniadau ffonig cyffredin sy'n odli.

Geirfa:

bysell gyfnewid (shift) | bar gofod | bwydo/cadarnhau | dileu | ôl-ofodi | cadw | adfer | mewnosod

Adnoddau:

prosesydd geiriau | enghreifftiau o brosesu geiriau plant hyn | llyfrau, cylchgronau a phapurau newyddion cyhoeddedig | taflenni wedi'u hargraffu sy'n dangos lluniau gyda swigod siarad gwag | llyfrau cyhoeddedig i blant

Disgwyliadau: Erbyn diwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: defnyddio prosesydd geiriau i gynhyrchu brawddegau sy'n cyfathrebu ystyr; cadw ac adfer gwaith gyda chymorth

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: bwydo geiriau i mewn i brosesydd geiriau

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: defnyddio prosesydd geiriau i gynhyrchu brawddegau sy'n cyfathrebu ystyr; mireinio brawddegau drwy ychwanegu geiriau a gwneud cywiriadau; newid brawddegau yng ngoleuni sylwadau: dechrau cadw ac adfer gwaith yn annibynnol.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

AMCANION DYSGU *Dylai disgyblion ddysgu*	**GWEITHGAREDDAU POSIB**	**CANLYNIADAU DYSGU** *Gall disgyblion*	**PWYNTIAU I'W NODI**
Gosod yr Olygfa			
• **syniad allweddol:** bod gwahaniaethau rhwng testun ysgrifenedig a thestun a gynhyrchwyd gan brosesydd geiriau	• Dangos i'r plant enghreifftiau o waith a gynhyrchwyd gan blant hyn ar brosesydd geiriau. Gofyn i'r dosbarth drafod sut mae'r gwaith yn wahanol i waith ysgrifenedig, *ee mae'n hawdd ei ddarllen, does dim camsillafu, nid oes modd gweld y cywiriadau, nid oes modd gwybod pwy yw'r awdur drwy edrych arno'n unig.* Trafod p'un yw'r hawsaf i'w ddarllen. Trafod pwy sy'n darllen eu gwaith, *ee athrawon, cyfoedion, rhieni*	• adnabod rhai o nodweddion testun a gynhyrchwyd gan brosesydd geiriau	• Gallai plant restru'r bobl maen nhw'n ysgrifennu ar eu cyfer, a'r cynulleidfaoedd sy'n darllen testunau gwahanol, fel posteri, arwyddion, rhestrau a hysbysebion.
Tasg fer wedi'i ffocysu			
• **syniad allweddol:** y gwahaniaeth rhwng testun rhedeg (lapio testun) a thestun gyda llindoriadau • **techneg:** defnyddio'r fysell fwydo i fewnosod llindoriadau	♦ Bwydo cerdd sy'n cynnwys odl gyson i mewn fel darn o ryddiaith, heb unrhyw lindoriadau. Trafod y gwahaniaeth rhwng sut mae barddoniaeth a rhyddiaith yn cael eu cyflwyno a dangos sut i ddefnyddio'r fysell fwydo i wneud llindoriadau. • Rhannu'r dosbarth yn barau a gofyn iddynt fewnosod llindoriadau yn y gerdd. Argraffu gwaith y plant a'i gymharu â'r fersiwn wreiddiol.	• adnabod ble mae'r fysell fwydo wedi cael ei defnyddio mewn testun a pham • defnyddio'r fysell fwydo os yw'n briodol	• Dylai plant weithio ar gopi o ffeil yr athro/athrawes a baratowyd ymlaen llaw. • Gellir rhoi copi o'r gerdd wreiddiol i'r plant sy'n cael y gwaith yn anodd er cefnogaeth. • Ar ôl iddynt ddod yn gyfarwydd â'r fysell fwydo, mae plant yn dueddol o'i defnyddio yn ddiangen.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

AMCANION DYSGU *Dylai disgyblion ddysgu*	GWEITHGAREDDAU POSIB	CANLYNIADAU DYSGU *Gall disgyblion*	PWYNTIAU I'W NODI
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.)			
• **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i aildrefnu testun a'i wneud yn haws ei ddarllen • **techneg:** defnyddio'r fysell fwydo i fewnosod llindoriadau	• Dangos sut i droi llinell o ddeg eitem o restr siopa yn rhestr lorweddol drwy ddefnyddio'r fysell fwydo	• deall bod modd symud geiriau i lawr y sgrîn	• Esbonio wrth y dosbarth nad yw testun wedi'i golli am byth os yw'n diflannu o'r sgrîn.
• **techneg:** bwydo testun i mewn gyda gofodau a defnyddio'r fysell gyfnewid i deipio priflythrennau a dod o hyd i fysell atalnod llawn a'i defnyddio • **techneg:** argraffu eu gwaith	• Argraffu set o luniau gyda swigod siarad gwag. Trafod sut mae modd defnyddio swigod siarad i ddangos araith uniongyrchol. Atgoffa'r dosbarth sut i fwydo testun i mewn a dangos sut i ddefnyddio'r fysell gyfnewid i greu prif lythyren. Rhannu'r plant yn barau a rhoi llun i bob pâr. Gofyn i'r plant drafod yr hyn sydd o bosib yn cael ei ddweud, a defnyddio'r prosesydd geiriau i deipio'r araith. Gofyn i'r plant argraffu eu gwaith, ei dorri allan a'i ludo ar y swigod siarad..	• creu brawddegau gan ddefnyddio prosesydd geiriau	• Gellir cwblhau'r gweithgaredd hwn ar y cyfrifiadur hefyd. Os oes modd creu swigod siarad ar y prosesydd geiriau a ddefnyddiwyd, gallai'r athro/athrawes baratoi sgriniau ymlaen llaw ar gyfer y plant sy'n cynnwys lluniau a swigod siarad. • Gall plant mwy galluog greu eu swigod siarad eu hunain a mewnosod delweddau'n annibynnol. • Hefyd gellir cysylltu hyn ag ymadroddion holi ac ateb Cymraeg.

AMCANION DYSGU *Dylai disgyblion ddysgu*	GWEITHGAREDDAU POSIB	CANLYNIADAU DYSGU	PWYNTIAU I'W NODI
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.) • **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i wella testun a gwneud neges yn fwy clir • **techneg:** dileu a mewnosod testun i wella ei ddarllenadwyedd • **techneg:** cadw ac adfer gwaith gyda chymorth	• Bwydo detholiad o lyfr plant cyfarwydd ond rhowch y gair 'a' yn lle'r atalnodau llawn. Trafod y detholiad gyda'r dosbarth, ac esbonio bod defnyddio 'a' dro ar ôl tro yn ei wneud yn ailadroddus ac yn anodd ei ddarllen. Dangos sut i ddileu 'a' a mewnosod atalnod llawn gan newid y llythyren ddilynol yn briflythyren. Rhannu'r dosbarth yn barau a gofyn iddynt olygu'r testun a baratowyd. Annog nhw i gadw eu gwaith gyda chymorth. Gofyn iddynt argraffu eu gwaith a'i gymharu â'r fersiwn wreiddiol.	• sylweddoli bod modd golygu testun i'w wella • sylweddoli bod modd gwneud newidiadau yn ddiweddarach • cadw ac adfer gwaith gyda chymorth	• Dylai plant weithio ar gopi o ffeil yr athro/athrawes a baratowyd ymlaen llaw. • Gall plant sy'n cael y gwaith yn anodd gael copi o'r detholiad gwreiddiol i'w cefnogi. • Gellir annog plant sy'n hyderus wrth ddefnyddio atalnodau llawn a phriflythrennau i ddefnyddio cysyllteiriau fel 'wedyn' ac 'yn y cyfamser'
Tasg Asesu: • defnyddio TGCh mewn modd priodol i gyfathrebu syniadau drwy destun	♦ Esbonio wrth y dosbarth y byddant yn defnyddio'r technegau y maen nhw wedi eu dysgu i gynhyrchu eu llyfrau eu hunain. ♦ Gofyn i'r dosbarth gofio'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu hyd yn hyn. ♦ Dangos llyfr lluniau i'r dosbarth neu defnyddiwch dâp masgio i orchuddio'r testun mewn stori gyfarwydd. Gofyn i'r plant gynhyrchu'r testun ar gyfer tudalen o'r stori. Atgoffa nhw am bwysigrwydd darllenadwyedd; pryd i ddefnyddio'r fysell fwydo a phryd i beidio â'i defnyddio; gwirio a chywiro sillafu; defnyddio atalnodau llawn a phriflythrennau. Gofyn i'r plant baratoi eu testun ar y sgrîn. • Helpu'r plant i gadw eu gwaith gyda chymorth.	• ddatblygu eu testun ar y sgrîn • defnyddio technegau priodol i sicrhau bod eu hysgrifen yn glir, wedi'i gyflwyno'n dda a heb wallau • cadw ac adfer y gwaith gyda chymorth	• Annog y plant i gael eu syniadau ar y sgrîn yn gyflym a chywiro'n ddiweddarach; ni ddylent deipio o gopi drafft a ysgrifennwyd â llaw. Bydd hyn yn eu helpu i werthfawrogi'r ffaith bod modd i TGCh eu helpu i ddatblygu eu hysgrifennu yn hytrach na bod yn declyn cyflwyno yn unig. • Gellir estyn y gweithgaredd hwn drwy baratoi cyflwyniad amlgyfrwng sy'n cynnwys delweddau,a gofyn i'r plant baratoi'r testun. Mae hyn yn darparu cyfle i blant rannu eu gwaith gyda phlant mewn ysgolion eraill.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA